YMATEB CYNGOR GWYNEDD I YMGYNGHORIAD STATUDOL AR GYNLLUN LLESIANT DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

Fel un o bartneriaid allweddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, mae angen i Gyngor Gwynedd gynnig ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar Gynllun Llesiant Drafft y Bwrdd. Isod, mae saith cwestiwn yr ymgynghoriad y gofynnir i chi ymateb iddynt.

Dolen Cynllun Llesiant Drafft:

https://www.llesiantgwyneddamon.org

| Rhif | Cwestiwn | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1 | **Gan ystyried Amcan 1 a'r blaenoriaethau i wireddu'r amcan hwn, a ydych yn teimlo bod y Bwrdd yn rhoi ffocws ar wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd?**<br><br>**A oes rhywbeth ar goll neu a oes gennych unrhyw sylwadau pellach?** | 1. Mae'r blaenoriaethau rhain yn gyson â'r blaenoriaethau gwella sydd yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Gwynedd heblaw am un, sef effaith newid hinsawdd. Mae gan y Cyngor fwy o flaenoriaethau gwella na'r Bwrdd wrth gwrs.<br><br>2. Mae cyfyngu'r Cynllun i nifer fechan o flaenoriaethau ble gallwn wneud gwahaniaeth yn fwy synhwyrol nac addo a cheisio gwneud gormod.<br><br>3. Gellir cwestiynu a yw 'effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau' gyfystyr â 'chyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi'.<br><br>4. Ystyrir bod hyrwyddo'r Gymraeg, cartrefi ar gyfer pobl leol ac effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau yn rhoi ffocws ar wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd ein cymunedau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 5. Efallai y dylid ystyried fforddiadwyedd cartrefi ar gyfer pobl leol fel rhan o Amcan 1 hefyd yn ogystal ag addysg a sgiliau fel cyfrwng allweddol i alluogi pobl i ddod allan o dlodi.<br><br>6. Mae diffyg cyfeirio at ddatblygu'r economi yn y cynllun drafft ac oherwydd hynny, mae cynyddu cyfoeth trigolion lleol yn wendid yn y cynigion. Nodir bod diffyg swyddi sy'n talu'n dda yn angen ac yn flaenoriaeth gan drigolion o fewn y Cynllun ond nid yw'n derbyn sylw yn y blaenoriaethau.<br><br>7. Fel nodir yn y Cynllun Drafft mae cyswllt yma gyda gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ond bydd angen gweithredu yn lleol i sicrhau fod y twf a gynhyrchir o ganlyniad i weithgaredd y Bwrdd yn trosi'n ffyniant i drigolion a chymunedau ledled Gwynedd a Môn.<br><br>8. Mae'r angen i ymestyn a chynyddu gwerth gweithgaredd sectorau traddodiadol, yn arbennig yn ardaloedd gwledig yn feysydd sydd angen sylw'r Bwrdd (fel y tystiolaethir yng Nghynllun y Cyngor) yn arbennig mewn cyfnod o ansicrwydd yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE.<br><br>9. Gwaith yw'r prif ffactor sy'n sicrhau fod unigolion a chymunedau yn cael eu codi o dlodi ac yn torri'r cylch amddifadedd. Byddai cynyddu cyfoeth trigolion Gwynedd a Môn yn cyfrannu at gynnal cymunedau cynhenid Cymreig ac yn rhan allweddol o ymateb i'r angen am gartrefi ar gyfer bobl leol.<br><br>10. Yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, efallai bod y flaenoriaeth bresennol yn rhy fewnblyg gyda gormod o ganolbwyntio ar y sector cyhoeddus yn hytrach na hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach. Mae ystod o wasanaethau y Cyngor yn cyfrannu at sicrhau dyfodol yr iaith yn arbennig yng nghyswllt |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau gwerthfawrogiad a pherchnogaeth o’n diwylliant a’n treftadaeth unigryw. Nid oes unrhyw gyfeiriad at ddiwylliant a’r celfyddydau a’u cyfraniad i:–<br>a) Lesiant unigolion a chymunedau a dealltwriaeth o’u bröydd.<br>b) Cyfleoedd cyflogaeth - yn enwedig o fewn y clwstwr diwydiannau creadigol yn yr ardal.<br>c) Gweithgareddau i greu cyfleoedd trwy ddiwylliant yn ein cymunedau o angen.<br>d) Ffyniant y Gymraeg a’r defnydd naturiol ohoni yn ein cymunedau yn sgil ddiwylliant byrlymus a byw'r ardal.<br><br>11. Yng nghyswllt effaith tlodi awgrymir y dylid newid y cydbwysedd gan flaenoriaethu **atal a chodi trigolion allan o dlodi** yn hytrach na lliniaru’r effeithiau. Awgrymir y dylid rhoi sylw arbennig i:-<br>a) gynyddu cyflogadwyedd a chynhwysiad yn y farchnad llafur;<br>b) adfywio ffisegol a chymunedol i sicrhau amgylchedd cefnogol<br>c) gyrchfannau deniadol, byrlymus i bobl leol yn ogystal ag ymwelwyr.<br><br>12. Teimlad bod angen cydweithio rhwng y prif sefydliadau ar feysydd penodol megis prentisiaethau er mwyn mynd i’r afael a’r flaenoriaeth “swyddi o safon” |
| **2** | **Gan ystyried Amcan 2 a'r blaenoriaethau i wireddu'r amcan hwn, a ydych yn teimlo bod y Bwrdd yn rhoi ffocws ar wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd?**<br><br>**A oes rhywbeth ar goll neu a oes gennych unrhyw sylwadau pellach?** | 1. Dan yr ail flaenoriaeth, un o’r pethau sy’n cael ei nodi yn rhan 9 o’r Cynllun (Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo) yw bod diffyg cyrhaeddiad addysgol yn cael effaith ar lesiant. Un o’r meysydd sy’n allweddol i hynny yw addysg ôl - 16 ac mae trafodaethau yn digwydd rhwng yr awdurdod a chyrff addysg bellach i drafod y ddarpariaeth bresennol. A ddylai hwn ddod dan ymbarél y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus? |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Awgrymir y dylai addysg a sgiliau gael eu cynnwys fel rhan o Amcan 2, gan ei fod yn gyfrwng i sicrhau safon bywyd da.<br><br>3. Credir bod y pwyslais ar iechyd a gofal oedolion ynghyd â lles a llwyddiant plant a phobl ifanc yn gywir, serch hynny, dylid nodi bod sicrhau gwaith a chyflogau da yn ffactorau allweddol wrth geisio gwella iechyd a safon bywyd. Dylid nodi'r sylwadau penodol canlynol:<br>a) Yng nghyswllt iechyd a gofal oedolion mae gan y Bwrdd rôl allweddol i sicrhau cyfleoedd priodol i alluogi trigolion i fyw bywydau iach. Yn hyn o beth, mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau priodol, fel y cynigir gan Wasanaeth Hamdden y Cyngor ynghyd â mynediad i'r arfordir a chefn gwlad yn allweddol.<br>b) Yng nghyswllt lles a llwyddiant pobl ifanc dylid nodi bod gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gynyddu uchelgais ac atal rhag cael eu heithrio o'r farchnad lafur yn allweddol i leihau'r angen am wasanaethau dwys yn unionsyth ac yn y tymor hir.<br>c) Dylid hefyd nodi'r rôl bwysig y mae diwylliant, celfyddydau a threftadaeth yn eu chware wrth hybu gweithgareddau iechyd a llesiant oedolion, plant a phobl ifanc. |
| **3** | **Pa flaenoriaethau ydych yn teimlo y dylem ganolbwyntio arnynt yn gyntaf?** | 1. Anodd yw adnabod blaenoriaeth sy'n 'dod gyntaf' i bob perwyl. Os yw'r maes wedi cael ei nodi yn y Cynllun onid dylid rhoi sylw iddo? Onid amgenach ystyried pa gyrff sydd angen bod o amgylch y bwrdd a dewis unigolyn neu fwrdd gweithredu i arwain ar y gwaith sydd angen ei wneud? Gallai'r corff yna ddatblygu cynllluniau penodol a'u rhoi gerbron y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **4** | **Sut y gallwch chi a'ch cymuned ein helpu i gyflawni hyn?** | 1. Gall yr Adran Addysg ddarparu addysg gynhwysol, sy'n sicrhau cyfle i **bob** plentyn a pherson ifanc gyflawni ei lawn botensial a ffynnu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Mae gan Wasanaethau'r Cyngor a'u rhaglenni a'u prosiectau rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r amcanion llesiant. |
| **5** | **Ble ydych yn teimlo y gellir defnyddio cyd-ddylanwad aelodau'r Bwrdd?** | 1. Y prif gyfleoedd i'r Bwrdd ychwanegu gwerth yw drwy:-<br>a) sicrhau agenda clir sydd wedi ei rannu ymhlith y partneriaid<br>b) sicrhau gwell cydlynu a chydweithio ymhlith gwasanaethu partneriaid<br>c) lleisio a gwarchod anghenion unigryw Gwynedd ar y llwyfan rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>2. Mae cyfle yma i gyd-gynllunio gwasanaethau Cymraeg cyson ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus.<br><br>3. Gall y Bwrdd ymateb i dlodi ac effaith tlodi ar ein cymunedau a sicrhau lles a llwyddiant plant a phobl ifanc y siroedd.<br><br>4. Credir bod angen cydweithio rhwng y prif sefydliadau ar feysydd penodol megis prentisiaethau er mwyn mynd i'r afael a'r flaenoriaeth "swyddi o safon" |
| **6** | **Rydym am i bobl barhau i fod yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun ymhellach - sut allwn wneud hyn?** | 1. Er mwyn datblygu'r Cynllun ymhellach mae angen cyfathrebu cyson a gellid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn eang.<br><br>2. Gellid sicrhau mewnbwn plant a phobl ifanc drwy Gynghorau Ysgol a Grwpiau Defnyddwyr perthnasol eraill.<br><br>3. Credir y byddai'n fuddiol sicrhau a hwyluso gwell perchnogaeth o'r Cynllun o fewn sefydliadau megis y Cyngor a'i fod yn cael ei weddu i raglenni gwaith. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>4. Credir bod angen strwythur a mecanwaith ffurfiol yn fewnol i'r Cynghorau a'r cyrff partneriaid ar lefel 'gweithredol' i symud yr amcanion yn eu blaen gan fod diffyg yn hynny o beth ar hyn o bryd.<br><br>5. Dylai grymuso cymunedau fod yn faes y dylid ei flaenoriaethu h.y. gweld beth mae'r gymuned yn gallu ei ddarparu ac yna adeiladu o hynny. Byddai cefnogi cwmnïau cymunedol, egni cymunedol ayb yn helpu i gryfhau'r economi.</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Cynigiwch unrhyw sylwadau pellach am Gynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn?</td><td>1. Nid oes sylwedd i'r Cynllun ar hyn o bryd gan yw'n nodi yn benodol yr hyn y bwriadir ei wneud i wireddu'r blaenoriaethau.<br><br>2. Byddai'n well cynllun petai'n nodi cynllun gweithredu ar gyfer gwireddu'r amcanion. A oes trefn mewn lle ar gyfer sicrhau cynllun gweithredu cyn gynted a bo modd?<br><br>3. Awgrymir os nad yw'n bosib cynnwys camau gweithredu penodol yn y cynllun, efallai bod angen nodi sut y bwriadir cyrraedd y fan honno.<br><br>4. Yn Unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 mae angen gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gynlluniau'r Bwrdd ac mae angen ystyried nodweddion cydraddoldeb yn eu cyfanrwydd fel y'u diffinnir yn y Ddeddf nid cymunedau difreintiedig yn unig fel y cyfeirir atynt yn y cynllun drafft.<br><br>5. Mae angen edrych ar ffyrdd amgen o fynd i'r afael a'r blaenoriaethau e.e. ardaloedd o Brydain wedi gweld toriadau cyllideb ond wedi gweld cynnydd mewn boddhad cymunedau - buddsoddi mewn prosiectau taclo unigrwydd sydd wedi dilyn i leihad mewn defnydd o feddyginiaethau. Buddsoddi cymdeithasol.</td></tr>
</table>